Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 29.1 (Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU)

Medi 2024

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygio Rheol Sefydlog 29.1 er mwyn egluro pa fath o ddarpariaethau y mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, ac i ba ddarpariaethau y mae'r Senedd yn rhoi, neu'n gwrthod rhoi, ei chydsyniad pan fydd yn ystyried cynnig cysylltiedig.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad A.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........ 3**

**2. Y darpariaethau presennol: ........ 3**

**3. Penderfyniad ........ 5**

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog a nodiadau esboniadol........ 6**

**Atodiad B: Rheol Sefydlog 29.1 fel y'i diwygiwyd........ 7**

# 1. Y cefndir

**1.** Ar 24 Mawrth 2024, mewn ymateb i lythyr oddi wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu gweithrediad Rheol Sefydlog 29.1, sy'n nodi'r amgylchiadau pan fo rhaid i Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

**2.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Pwyllgor Busnes eto ar 10 Mai a 5 Mehefin, yn nodi sut yr oedd ei ystyriaeth o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cyfiawnder Troseddol, y Bil Rhentwyr (Diwygio) a'r Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol wedi tynnu sylw at faterion pellach, ym marn y Pwyllgor, o ran y broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Yn ogystal â'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 29.1 a gynigir yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ystyried a fyddai'n ddymunol cynnal adolygiad trylwyr o Reol Sefydlog 29, yng nghyd-destun ei raglen waith weithdrefnol ehangach. Dim ond i ganlyniad yr adolygiad gwreiddiol o Reol Sefydlog 29.1 y mae'r adroddiad hwn yn berthnasol.

# 2. Y darpariaethau presennol:

**Rheol Sefydlog 29.1**

**3.** Mae Rheol Sefydlog 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod mewn perthynas â 'Bil perthnasol', ac mae Rheol Sefydlog 29.1 yn diffinio beth yw Bil perthnasol:

*Yn Rheol Sefydlog 29, ystyr "Bil perthnasol" yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth ("darpariaeth berthnasol") mewn perthynas â Chymru:*

*i) at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu*

*ii) sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.*

**4.** Cyflwynwyd darpariaethau'n ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol i Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd) yn wreiddiol yn 2007, pan roddwyd pwerau deddfu sylfaenol cyfyngedig i'r Cynulliad am y tro cyntaf.

Nid yw Rheol Sefydlog 29.1 ei hun, na'r diffiniad o 'ddarpariaeth berthnasol' wedi newid ers hynny, ac eithrio diwygiad yn 2013 a ddarparodd fod unrhyw addasiad o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn 'ddarpariaeth berthnasol' pan mai dim ond addasiadau a oedd yn effeithio'n negyddol ar gymhwysedd y Senedd yr oedd angen cydsyniad ar eu cyfer yn flaenorol.

## Deddf Cymru 2017

**5.** Rhoddodd Deddf Cymru 2017 sail statudol i 'gonfensiwn Sewel' drwy fewnosod is-adran 107(6) newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006):

*But it is recognised that the Parliament of the United Kingdom will not normally legislate with regard to devolved matters without the consent of the Senedd.*

**6.** Gwnaeth Deddf Cymru 2017 hefyd newid sail pwerau deddfu'r Senedd drwy symud o fodel rhoi pwerau, sef y drefn a fu ar waith ers 2006, i fodel cadw pwerau. Yn hytrach na bod gan y Senedd y pŵer i ddeddfu ar bynciau a restrir yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn unig, ers 2017, mae gan y Senedd y pŵer i ddeddfu ar bob pwnc ac eithrio'r rhai a gedwir yn ôl yn benodol i Senedd y DU yn Atodlen 7A.

**7.** Er nad yw'n cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth nac mewn unrhyw fan arall, mae 'materion datganoledig' yn ehangach o ran cwmpas na'r ddau achos penodol a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1. Fel yr amlygwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei lythyrau, mae wedi dod yn arfer gan Lywodraeth Cymru i gynnwys mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ddarpariaethau sy'n dod o fewn y diffiniad ehangach hwn, ond nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan ofynion presennol Rheol Sefydlog 29.1. Er enghraifft, pan fo Bil y DU fel y Bil Cyfiawnder Troseddol yn rhoi swyddogaethau a gedwir yn ôl i awdurdodau datganoledig Cymru, mae hyn yn 'ymwneud â materion datganoledig' er nad yw'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd nac yn addasu'r cymhwysedd hwnnw, sef y profion deuol a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1.

**8.** Dehongliad Llywodraeth y DU, fel y'i nodir yn y Canllawiau ar Ddatganoli yw bod materion datganoledig nid yn unig yn cynnwys materion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a newidiadau i'r cymhwysedd hwnnw, ond hefyd addasiadau i swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, a rhoi neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar Awdurdodau Datganoledig Cymru. Nid yw'r ddau fath olaf o newid wedi'u

cynnwys yn Rheol Sefydlog 29.1 ar hyn o bryd, er bod canllawiau llywodraeth y DU ei hun yn nodi na fyddai fel arfer yn deddfu yn y meysydd hyn heb gydsyniad y Senedd.

**9.** Mae'r gwahaniaeth hwn o ran dehongliadau yn achosi dryswch nid yn unig ynghylch pa ddarpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, ond hefyd o ran pa ddarpariaethau y mae'r Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt mewn gwirionedd pan fydd yn pasio cynnig cydsyniad deddfwriaethol. At hynny, o ystyried bod rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gynnwys darpariaethau o'r math a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1, mae'r sefyllfa bresennol yn codi cwestiynau am dderbyniadwyedd pe bai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnwys dim ond darpariaethau o'r math sydd y tu allan i ddiffiniad y Rheol Sefydlog, hyd yn oed os oeddent yn amlwg yn ymwneud â materion datganoledig.

# 3. Penderfyniad

**10.** Mae’r Pwyllgor Busnes yn cynnig bod Rheol Sefydlog 29.1 yn cael ei diweddaru i’w chysoni â darpariaeth a107(6) o Ddeddf 2006.

**11.** Bydd y newid yn rhoi eglurder ynghylch pa fath o ddarpariaethau y mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar eu cyfer, a pha ddarpariaethau y mae'r Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt (neu nad yw’n rhoi cydsyniad iddynt) pan fydd yn ystyried cynnig cysylltiedig. O ystyried bod Llywodraeth Cymru eisoes am gynnwys yr holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â materion datganoledig mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, ni ddisgwylir i’r newid hwn arwain at gynnydd o ran nifer y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, nac ychwaith o ran nifer y darpariaethau y maent yn eu cynnwys.

**12.** Ar 17 Medi 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| **RHEOL SEFYDLOG 29.1 - Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU** | |
|---|---|
| **Biliau Senedd y DU sy'n Gwneud Darpariaeth y mae Angen Cydsyniad y Senedd ar ei chyfer** | **Cadw'r pennawd** |
| 29.1. Yn Rheol Sefydlog 29, ystyr “Bil perthnasol” yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth (“darpariaeth berthnasol”) mewn perthynas â Chymru~~:~~ sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.<br>~~(i) at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu~~<br>~~(ii)sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.~~ | **Diwygio'r Rheol Sefydlog**<br>Bydd y newid yn rhoi eglurder ynghylch pa fath o ddarpariaethau y mae angen iddynt gael Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a pha ddarpariaethau y mae'r Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt (neu nad yw’n rhoi cydsyniad iddynt) pan fydd yn ystyried cynnig cysylltiedig. |

# Atodiad B: Rheol Sefydlog 29.1 fel y'i diwygiwyd

## RHEOL SEFYDLOG 29 – Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU

Biliau Senedd y DU sy'n Gwneud Darpariaeth y mae Angen Cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

29.1. Yn Rheol Sefydlog 29, ystyr “Bil perthnasol” yw Bil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU ac sy'n gwneud darpariaeth (“darpariaeth berthnasol”) mewn perthynas â Chymru sy’n rhoi sylw i faterion datganoledig.